Naddu

Trosolwg

Mae defnyddio offer yn sgìl pwysig mewn bywyd, y gellir ei gyflwyno drwy ddefnyddio plicwyr i naddu pren. Bydd y plant yn dysgu am reoli risg drwy brofiadau go iawn.



Gweithgareddau

- Storiwch y plicwyr yn ddiogel.
- Yr unig ran y dylech ei chyffwrdd yw carn y pliciwr.
- Sicrhewch fod y sawl sy'n defnyddio'r plicwyr yn penlinio neu'n eistedd.
- Sicrhewch fod pawb sy'n defnyddio'r plicwyr led braich oddi wrth ei gilydd.
- Pwyntiwch y brigyn tuag i lawr a naddwch y pren gan wthio'r pliciwr i ffwrdd oddi wrth eich corff ac i lawr y brigyn.
- Rhowch y gorau i naddu os bydd rhywun yn siarad neu os bydd sylw rhywun yn cael ei dynnu oddi ar y dasg.
- Cadwch y plicwyr gyda'i gilydd pan na fyddant yn cael eu defnyddio.

Offer

- Plicwyr llysiau, sydd o ansawdd da ac sy'n cynnwys un llafn.
- Brigau hir – pren glas, meddal heb gnotiau fyddai orau, e.e. helygen.
- Deunyddiau gwaith crefft, megis pinnau lliw.

Cyngor ychwanegol am ddiogelwch

Cynhaliwch y gweithgaredd mewn man ymylol dynodedig yn yr awyr agored, e.e. mewn cornel, fel na fydd plant eraill yn rhedeg drwy'r man dan sylw tra bydd y gweithgaredd yn digwydd.

Deilliannau dysgu

- Hybu cydsymud rhwng y llygaid a'r dwylo, sgiliau echddygol manwl a sgiliau rheoli risg.
- Hybu iaith a chyfathrebu.
- Datblygu hyder ac ymdeimlad o gyflawni wrth ddefnyddio eitem pob dydd.

Symud y dysgu yn ei flaen

Adeiladwch ar y profiad o ddefnyddio plicwyr, a'r broses gysylltiedig o reoli risg, er mwyn cyflwyno offer eraill ar gyfer gwaith pren, e.e. sgriwdreifers a morthwylion.